WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Rydym hefyd wedi defnyddio canlyniadau'r broses asesu cymheiriaid[1] sydd ar waith o fewn awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Awdurdod wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Lisa Williams a Jackie Joyce, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau newydd ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Mae'r broses asesu'n cynnwys cynnal hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog wedi'i chyfuno ag adolygiad a gynhelir gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill

# Cynnwys


Pa fath o ardal y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru'n gyfrifol amdani 04

A yw'r Awdurdod wedi'i reoli'n dda? 06

A yw'r Awdurdod yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda? 10

A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn? 11

A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch? 16

Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud? 20


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 21

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 23

Atodiad 3 - Asesiad corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 25

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 26

Atodiad 5 - Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 28

Atodiad 6 - Crynodeb o ganfyddiadau'r tîm asesu cymheiriaid 31


Atodiad 7 - Cyfeiriadau 34

# Pa fath o ardal y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru'n gyfrifol amdani?

1 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r term 'Awdurdod' i gyfeirio at aelodau a staff ar y cyd sy'n gyfrifol am arwain, rheoli a darparu'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod yn cynnwys chwe awdurdod unedol cyfansoddol sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam (gweler Arddangosyn 1).

2 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am ardal sydd ag arwynebedd o tua 2,400 milltir sgwâr (6,173 cilometr sgwâr). Fel y byddech yn ei ddisgwyl mewn ardal mor fawr, ceir amrywiaeth eang o risgiau sy'n gysylltiedig â threfi poblog y Rhyl, Llandudno a Wrecsam. Ceir hefyd ardaloedd mawr sy'n cynnwys cymunedau ffermio gwledig, ac mae nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â Gogledd Cymru bob blwyddyn. Yn ogystal mae'r Awdurdod yn gyfrifol am arfordir a dyfroedd mewndirol helaeth o fewn ei ardal weithredu.

**Arddangosyn 1: Cyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**



3 Ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael, mae 679,000 o bobl yn byw yn ardal yr Awdurdod mewn 384,000 o gartrefi, y mae 95,000 ohonynt wedi'u meddiannu gan bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn golygu bod pobl yn byw ar eu pen eu hunain mewn tua 25 y cant o'r holl gartrefi.

4 Yn 2007 roedd tua 9,700 cilometr o ffyrdd yn ardal yr Awdurdod. Teithiwyd cyfanswm o 6.6 biliwn cilomedr cerbydau ar y prif ffyrdd yn ardal yr Awdurdod, gyda'r cyfraddau uchaf yn Sir y Fflint a Gwynedd. I roi'r ffigur hwn yn ei gyd-destun, teithiwyd ychydig dros 28 biliwn cilomedr cerbydau yng Nghymru gyfan.

5 Canfu Arolwg Iechyd Cymru fod canran yr oedolion a ymatebodd i'r holiadur yn y chwe ardal awdurdod unedol a nododd eu bod yn ysmygwyr ar hyn o bryd yn amrywio o 22 i 26 y cant o gymharu â chyfartaledd Cymru o 24 y cant.

6 Mae proffil oedran poblogaeth yr Awdurdod, a luniwyd ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf, yn dangos bod 18 y cant o'r boblogaeth yn blant (0 i 15 oed) yn 2009 a bod 20 y cant yn bobl dros 65 oed. Mae'r ddau ffigur yn agos i gyfartaledd Cymru o 18 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno, sydd i'w ddisgwyl o ystyried maint ardal yr Awdurdod.

7 Ceir rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
6,173 km$^2$
/////////////

poblogaeth
679,000
/////////////

18% 0-15
20% >65
/////////////

# A yw'r Awdurdod wedi'i reoli'n dda?

8 Ym mis Awst 2010 lluniodd Sw yddfa Archwilio Cymru adroddiad sef yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, sy'n cynnwys rhywfaint o fanylion am drefniadaeth yr Awdurdod a sut y caiff ei reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn mae ar gael ar wefan yr Awdurdod neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

9 Roedd casgliad cyffredinol yr adroddiad fel a ganlyn: 'mae arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol'. Hynny yw, mae'r Awdurdod yn debygol o wella pethau ar gyfer y bobl sy'n byw yn ei ardal gan fod ganddo arweinyddiaeth gadarn ac mae'n gwella'r modd y caiff ei reoli.

10 Roedd y negeseuon allweddol o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae'r Awdurdod wedi'i redeg yn dda ar y cyfan o ran arweinyddiaeth, llywodraethu, datblygu polisi, rheoli adnoddau a rheoli pobl;
- mae'n gweithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill; a
- cheir gwendidau o ran rheoli perfformiad ac mae angen datblygu prosesau busnes ymhellach.

11 Ers ein hadroddiad mae'r Awdurdod wedi dechrau gweithio ar y meysydd hyn.

12 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £31.3 miliwn, sy'n gyfwerth â £46 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £2.6 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod; Ei farn ef oedd bod y datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan a bod yr arian wedi'i wario yn briodol. Mae Atodiad 4 yn rhoi mwy o fanylion.

13 Rheolwyd cyllideb yr Awdurdod yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld tanwariant o £105,123 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2010-11). Mae hyn yn sail gadarn i'r Awdurdod wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.

14 Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymwybodol ers peth amser bod angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl. Gwnaeth yr Awdurdod baratoadau synhwyrol a sefydlodd Weithgor Cyllideb a aeth ati i ystyried pob dewis ariannol a gwasanaeth posibl. Mae ei Gyllideb ar gyfer 2011-12 wedi'i chynllunio i gyflawni arbedion arian parod o £0.8 miliwn drwy ystod o weithgareddau a ddatblygwyd drwy'r Gweithgor Cyllideb ac y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod. Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos mwy o leihad mewn termau real yn arian refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 a 2013-14 a fydd yn cael effaith ganlyniadol ar yr arian sydd ar gael i'r awdurdod tân.

15 Yn 2009, gallai 39 y cant o boblogaeth ardal yr Awdurdod siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig llai na 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag awdurdodau tân ac achub i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau

hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd.  Disgwylir i bob awdurdod tân ac achub gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor ar sut y gallai'r Awdurdod wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

16 Cafodd yr Awdurdod ei ganmol gan y Bwrdd am y gwaith a wnaed i sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ar waith ar gyfer 2010-2013, a hefyd ar gyfer y prosiect Gweithleoedd Dwyieithog a weithredwyd yn ystod 2009-10. Cafodd yr Awdurdod ei ganmol gan y Bwrdd hefyd am gynnwys holiadur sgiliau Cymraeg staff fel rhan o ffurflen Adolygiad Datblygiad Personol Blynyddol pob aelod o staff. Canfu’r Bwrdd bod gwefan yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Gofynnodd y Bwrdd i'r Awdurdod fynd i'r afael ag un mater sy'n ymwneud â chyfeiriadau e-bost. Bu'r Awdurdod yn raddol wella'r wybodaeth sydd ganddo am sgiliau ieithyddol eu staff o fewn ei gronfa ddata personél. Gan fod y mater hwn yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni gwelliannau pellach yn 2011-12.

# A yw'r Awdurdod yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

17 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ac achub gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau a sut y byddant yn mynd ati i wneud hynny.

18 Cenhadaeth yr Awdurdod yw gwneud gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi. Mae gan yr Awdurdod bum nod corfforaethol a fabwysiadwyd yn 2001, sy'n gyson ar y cyfan â blaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer awdurdodau tân ac achub, sef ceisio:

- atal tanau damweiniol a maleisus;
- amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu gan danau a pheryglon eraill;
- amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag difrod gan danau a pheryglon eraill;
- dod o hyd i ffyrdd o wella er mwyn bodloni disgwyliadau'r gymuned; a
- gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

19 Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei amcanion gwella erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi, ac eleni cyhoeddodd ei gyfres gyntaf o amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ym mis Ebrill 2011. Mae'r Awdurdod wedi nodi saith amcan gwella penodol, a nodir manylion y rhain yn ei Gynllun Gwella a Lleihau Risg ar y Cyd 2009-12 (y Cynllun). Ceir crynodeb ohonynt isod gyda rhagor o wybodaeth yn Atodiad 5:

- helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn llety preswyl;
- helpu i leihau'r risg o danau damweiniol mewn eiddo annomestig, fel y gall gweithgareddau arferol barhau a sicrhau nad yw bywydau ymwelwyr a gweithwyr mewn perygl;
- helpu i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau eraill nad ydynt yn ymwneud â than, megis llifogydd, traffig ffyrdd, a digwyddiadau sy'n ymwneud â chemegau;
- helpu i fynd i'r afael â phroblemau o ran cynnau tanau yn fwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd na threftadaeth yr ardal yn cael eu peryglu;
- canolbwyntio ar wella trefniadau datblygu cynaliadwy'r Awdurdod drwy daro'r cydbwysedd priodol rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub;
- gwella o ran nodi ac ymgysylltu â phobl a allai fod o dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, felly y gallwn wella'r ymdeimlad o les a lleihau lefel y risg i'w diogelwch personol; a
- sicrhau bod trefniadau Cynllunio Parhad Busnes a threfniadau Rheoli'r gwasanaeth mor gynhwysfawr a diogel â phosibl.

20 Roeddem am sicrhau bod yr Awdurdod yn gwybod yn iawn sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella yn ôl y bwriad. Mae'r amcanion gwella yn glir, ac mae gan nifer ohonynt fesurau llwyddiant penodedig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd rhai o'i amcanion gwella yn anodd i'w mesur, ac mae wedi nodi yn ei gynllun y caiff dangosyddion perfformiad lleol pellach eu datblygu a'u cyflwyno. Dylai dangosyddion o'r fath gynnwys mesurau ansoddol a meintiol fel y gellir nodi a gwerthuso canlyniadau cymunedol. Yn y misoedd i ddod, byddwn yn ystyried y trefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni'r amcanion gwella.

21 Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda yr oedd yr Awdurdod wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Canfuwyd bod y blaenoriaethau'n cael eu datblygu gan weithgor o aelodau ac yna

cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt dros gyfnod o 12 wythnos yn ystod yr haf gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i geisio barn. Roedd hyn yn cynnwys mynychu sioeau amaethyddol lleol, dosbarthu tua 3,500 o gopïau dwyieithog o'r cynllun a defnyddio ei wefan a'i safle facebook. Er mai dim ond 22 o ymatebion ysgrifenedig a gafwyd i'r ymgynghoriad ffurfiol, mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu ei gynllun lleihau risgiau. Noda adroddiad y Tîm Asesu Cymheiriaid 'roedd tystiolaeth o ymgysylltu anffurfiol helaeth â phartneriaid wrth ddatblygu'r Cynllun Lleihau Risg. Roedd hyn o ganlyniad i adborth ac ymgysylltu cyffredinol drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na bod yn benodol i'r broses o baratoi'r Cynllun Lleihau Risg'. Mae rhagor o wybodaeth am adroddiadau'r Tîm Asesu Cymheiriaid ar gael yn Atodiad 6.

22 Yn olaf gofynnwyd pa mor dda y bydd cynlluniau'r Awdurdod yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â nifer o gamau gweithredu, ac mae'n parhau i wneud hynny, yn cynnwys:

- Gweithgor Cyllideb a sefydlwyd i nodi dewisiadau ariannol a gwasanaeth posibl er mwyn ymdopi â'r lleihad yn ei gyllideb;
- defnyddiwyd Templed Cynllunio Mewnol Safonol gan benaethiaid adrannau i nodi eu camau arfaethedig a'u dyraniadau cyllideb ar gyfer pob chwarter; a
- chaiff templed Cynllun Adrannol wedi'i symleiddio ei gyflwyno ar gyfer y flwyddyn sy'n cychwyn ym mis Ebrill 2011 a fydd yn dwyn ynghyd wybodaeth fonitro'r gyllideb a gwybodaeth fonitro'r cynllun gweithredu at ddibenion monitro chwarterol.

23 Mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a fydd y dull newydd hwn yn cyflawni amcanion gwella'r Awdurdod, a byddwn yn ystyried hyn yn fanylach y flwyddyn nesaf.

24 Mae angen i bob awdurdod tân ac achub gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwneud hyd yn oed yn well. Nododd adroddiad diweddar y Tîm Asesu Perfformiad, er bod data'n cael ei gasglu, er enghraifft ar danau, marwolaethau, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a thanau bwriadol, nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y data hwn yn cael ei ddwyn ynghyd mewn modd systematig i bwynt canolog. Gwyddom hefyd o'n gwaith bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r systemau wrth i ddangosyddion lleol newydd gael eu datblygu i fesur effaith yr amcanion gwella.

25 Canfuwyd gennym o'n gwaith archwilio a oedd yn ystyried y dangosyddion a'r data perfformiad diweddaraf bod ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gofnodwyd yn foddhaol. Roedd pob un o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu casglu a chyflwyno adroddiad arnynt i Lywodraeth y Cynulliad wedi'u datgan yn gywir.

26 Mae'n rhy gynnar i ni ddweud a gaiff y cynlluniau eu cyflawni ai peidio. Byddwn yn ystyried y cynlluniau dros y misoedd i ddod, ond gallwn ddweud bod y dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn synhwyrol, ac os caiff penderfyniadau a gymerwyd ynghylch opsiynau darparu gwasanaethau eu gweithredu'n llwyddiannus, mae'n debygol o leihau costau a chyflawni ei amcanion gwella.

# A yw'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda?

27 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan ddeddfwriaeth a'r weledigaeth a bennwyd gan Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau dilynol yn cwmpasu'r prif bethau y mae awdurdodau tân ac achub yn eu gwneud, sef:

- A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?
- A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?

28 Yn asesiad eleni rydym wedi ystyried yr amcanion gwella newydd ar gyfer 2011-12 a'r meysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn 2010-11. Byddwn yn ystyried amcanion gwella yn fanylach y flwyddyn nesaf i asesu p'un a sefydlwyd llinell sylfaen perfformiad ac, os yw'n bosibl, i ba raddau y mae perfformiad wedi gwella.

## A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?

29 Ym mis Rhagfyr 2010 lansiodd Llywodraeth y Cynulliad strategaeth newydd i addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch tân ac atal tanau. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd yr awdurdodau yn addysgu pobl ifanc am beryglon tanau a digwyddiadau sy'n ymwneud â thanau. Ei nod hefyd yw rhybuddio plant a phobl ifanc i beidio ag ymddwyn yn wrth-gymdeithasol mewn perthynas â thanau, megis galwadau ffug neu danau bwriadol. Mae hyn yn cefnogi'r flaenoriaeth a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod gan Lywodraeth y Cynulliad i achub bywydau a diogelu cymunedau, a darparwyd £1.1 miliwn i'r Awdurdod yn 2009-10 ar gyfer gwaith ataliol i'w helpu i wneud hyn.

30 Mae'r Awdurdod yn cynnal amryw weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau a lleihau effaith tanau. Mae gan yr Awdurdod nifer o Feysydd i Ganolbwyntio Arnynt ar gyfer 2010-11 sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r agwedd hon:

- lleihau nifer y tanau damweiniol a bwriadol a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig drwy ddarparu cymorth a chyngor amserol a dargedwyd (yn cynnwys drwy ddulliau megis rhwydweithio cymdeithasol a negeseuon ffonau symudol) ar y cyd â sefydliadau sector cyhoeddus eraill, asiantaethau gwirfoddol ac Atal Tân (elusen diogelwch tân yng Nghymru) fel sy'n briodol;
- cefnogi asiantaethau eraill i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau cysylltiedig;
- talu sylw penodol i leihau nifer y tanau yn gyffredinol, ac yn benodol danau awyr agored sy'n achosi difrod i gefn gwlad.

31 O ganlyniad i gynnydd sydyn yn nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yn 2006-07, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân ym mis Hydref 2006 i ystyried y rhesymau dros y cynnydd sydyn ac annisgwyl. Nododd adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn 2007 ffactorau cyffredin a gyfrannodd at y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yng ngogledd Cymru a oedd yn golygu bod pobl gogledd Cymru yn fwy agored i'r perygl o danau; y rhain oedd:

- Oedran (plant bach neu'r henoed)
- Anabledd (meddyliol neu gorfforol)
- Pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain
- Dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- Eiddo y mae parti arall yn berchen arno
- Dim cyfarpar canfod mwg sy'n gweithio
- Rhyngweithio â Thân (megis ysmygu yn y gwely a choginio o dan ddylanwad alcohol)

32 Yn ogystal â'r saith ffactor cyfrannol, nodwyd dau fater o ran ffordd o fyw, sef:

- Ysmygwyr
- bod mewn cysylltiad ag asiantaeth gefnogol arall

33 Mae dull yr Awdurdod o weithredu ei weithgareddau ataliol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r ffactorau cyfrannol a nodwyd sy'n tueddu i wneud rhai pobl yn fwy tebygol nag eraill o gael tân yn eu cartref. Mae'r Awdurdod wedi disgrifio sut y bydd yn cyfrannu at achub bywydau ac amddiffyn pobl yn ei Strategaeth Lleihau Risgiau Cymunedol Tair Blynedd ar gyfer 2009-2012. Noda'r Strategaeth fod y broses o ddarparu gwasanaethau diogelwch cymunedol wedi'i rhannu rhwng y meysydd canlynol:

- Profion Diogelwch Tân yn y Cartref
- Diogelwch Cymunedol - drwy gydweithio
- Rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau
- Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

- Gwaith ataliol a chodi ymwybyddiaeth
- Diogelu amgylchedd Cefn Gwlad
- Lleihau Tanau Bwriadol
- Lleihau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd

34 Rydym wedi ystyried y meysydd craidd o leihau tanau yn y cartref, lleihau tanau annomestig, lleihau tanau bwriadol/troseddau, gwaith ieuenctid a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn fanylach isod. Yn ogystal, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid weithgareddau diogelwch cymunedol yr Awdurdod yn ystod hydref 2010, a cheir crynodeb o'i ganfyddiadau yn Atodiad 6.

## Lleihau tanau yn y cartref

35 Ledled Cymru nifer fach o bobl a fu farw mewn tanau yn y cartref, ac mae wedi parhau felly dros y blynyddoedd diwethaf: o'r lefel isaf o 14 yn 2006-07 i'r lefel uchaf o 22 yn 2007-08, a bu farw 18 o bobl yn 2009-10. Yn yr un modd, mae nifer yr anafiadau a gafwyd yn ystod tanau yn y cartref wedi lleihau yng Nghymru o 358 yn 2004-05 i 185 yn 2009-10.

36 Er mwyn lleihau achosion o dân yn y cartref, mae Profion Diogelwch Tân yn y Cartref ar gael am ddim i bob deiliad tŷ i nodi risgiau a rhoi cyngor ac awgrymiadau ar sut i wneud cartrefi'n fwy diogel. Mae'r Awdurdod yn ceisio targedu'r bobl hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o dân yn y cartref ond mae'n cydnabod bod lle i wella, ac mae hwn yn Faes i Ganolbwyntio arno ar gyfer 2010-11. Rhoddwyd trefniadau ar waith gyda rhai partneriaid allweddol i nodi'r bobl hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf, a hefyd i gynnal Profion Diogelwch Tân yn y Cartref. Y llynedd (2009-10) cynhaliwyd tua 32,802 o Brofion Diogelwch Tân yn y cartref, yn erbyn targed blynyddol o 30,000. Mae'r targed yn cyfateb i tua wyth y cant o gyfanswm y cartrefi yn ardal yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn datblygu'r defnydd o'i System Rheoli Cofnodion fel dull o fonitro'r gwaith o gyflawni'r atgyfeiriadau risg uchel ar gyfer Profion Diogelwch Tân yn y Cartref; er bod y Tîm Asesu Perfformiad wedi nodi y gallai'r system fod yn gadarnach o ran monitro'r gwaith o gyflawni Profion Diogelwch Tân yn y Cartref risg uchel. Caiff gwybodaeth ei chasglu am nifer y Profion Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd ar ran yr Awdurdod cyfan, a chyflwynir adroddiadau ar y wybodaeth hon i aelodau'r Panel Gweithredol a'r Awdurdod.

37 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd, ers 2004-05:

- Bu lleihad sylweddol yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau o 128 yn 2004-05 i 38 yn 2009-10.
- Bu lleihad o tua saith y cant yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt ers 2004-05 pan ymatebwyd i 583 o danau o gymharu â 545 yn 2009-10.
- Bu lleihad o tua phump y cant yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn 2009-10 o gymharu â 2004-05 (o 502 i 479 o danau).
- Ers 2004-05 bu lleihad o tua 19 y cant yn nifer y tanau a gyneuwyd yn fwriadol mewn cartrefi. Er gwaethaf y lleihad tymor hwy hyn bu cynnydd sylweddol o 32 y cant rhwng 2008-09 pan oedd 50 o danau bwriadol mewn cartrefi o gymharu â 66 yn 2009-10.
- Roedd gan yr awdurdod y gyfradd isaf o danau mewn cartrefi yr ymatebwyd iddynt lle nad oedd larwm tân wedi'i osod, sef 25 y cant, sy'n well na chyfartaledd Cymru o 43 y cant ac mae wedi gwella ers 2004-05 (37 y cant).

38 Fodd bynnag, er bod y mesurau uchod yn dangos y bu rhywfaint o lwyddiant, mae'r Awdurdod yn wynebu heriau o hyd o ran lleihau marwolaethau oherwydd tân yn y cartref. Er bod yr Awdurdod wedi gweld lleihad graddol yng nghyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt dros y chwe blynedd ddiwethaf (o 583 i 545) mae nifer y marwolaethau y flwyddyn oherwydd tanau mewn anheddau wedi amrywio o dri i 10.

39 Mae'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru, wedi bod yn chwarae rhan allweddol yn y drafodaeth sy'n mynd rhagddi ynghylch manteision systemau chwistrellu. Maent wedi bod yn lobïo ers 2007 am newid i'r ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i systemau chwistrellu preswyl gael eu gosod mewn eiddo domestig. Cyhoeddwyd Mesur Aelod Preifat, sef Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno ym mis Gorffennaf 2010 ac ar hyn o bryd mae Pwyllgor Deddfwriaeth y Cynulliad yn craffu ar y Mesur arfaethedig.

## Lleihau tanau annomestig

40 Ledled Cymru bu farw dau berson oherwydd tân annedd annomestig damweiniol dros y chwe blynedd diwethaf. Mae nifer y bobl a anafwyd oherwydd tanau annomestig wedi lleihau hefyd o 59 yn 2004-05 i 22 yn 2009-10.

41 Mae’n ofynnol i’r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 y mae’n ei wneud fel arfer drwy archwilio eiddo busnes i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith. Gallant hefyd roi cyngor a chymryd camau gorfodi pan dybir bod angen gwneud hynny, er enghraifft os yw risg difrifol yn bodoli ac nad yw'n cael ei rheoli.

42 Mae tua 27,300 o safleoedd annomestig yn ardal yr Awdurdod. Yn ystod 2009-2010 cynhaliwyd tua 806 o archwiliadau diogelwch tân o safleoedd annomestig, sy'n cyfateb i tua thri y cant o gyfanswm y safleoedd busnes. Defnyddir y manylion am y safleoedd a gasglwyd yn ystod archwiliadau i ddarparu gwybodaeth i griwiau a allai cael eu galw i argyfwng ar y safle (gan felly helpu i leihau'r risgiau i ddiffoddwyr tân).

43 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar leihau galwadau tân diangen a rhybuddion tân diangen. Mae'n ceisio lleihau nifer y galwadau tân diangen o safleoedd lle y gosodwyd systemau canfod tân awtomatig gan fod anfon injan dân/offer diffodd tân pan nad oes argyfwng yn wastraff adnoddau, a gall hefyd annog pobl i anwybyddu larymau a pheidio â gwagio adeiladau. Bu lleihad cyson yn nifer y galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt dros y chwe blynedd diwethaf, ac roedd yn 1,646 yn 2009-10.

44 Mae'r Awdurdod yn ymgynghorai statudol ar gyfer nifer o faterion yn cynnwys tai, trwyddedu ac adeiladau. Er enghraifft, ymgynghorir â'r Awdurdod ynghylch Rheoliadau Adeiladu[2], sy'n ymwneud â sicrhau bod adeiladau yn ddiogel, yn iach, yn hygyrch ac yn gynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

45 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd:

- dros y chwe blynedd diwethaf, ni fu marwolaethau oherwydd tanau mewn eiddo annomestig;
- mae nifer y bobl a anafwyd wedi lleihau o 20 yn 2004-05 i bedwar yn 2009-10; a
- bu lleihad graddol o 26 y cant yn nifer y tanau annomestig yr ymatebwyd iddynt rhwng

2 Mae Rheoliadau Adeiladu'n pennu safonau ar gyfer dylunio ac adeiladu sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o adeiladau newydd a llawer o addasiadau i adeiladau presennol yng Nghymru a Lloegr.

2004-05 (345) a 2009-10 (265), er bod y gyfradd ymateb dros y blynyddoedd diwethaf yn gymharol sefydlog, sef tua 250 o danau annomestig y flwyddyn.

## Tanau bwriadol a lleihau troseddau

46 Mae nifer y tanau bwriadol yng Nghymru wedi lleihau traean ers 2004-05 o 19,709 i 12,902 yn 2009-10. Yn ystod 2009-10, roedd mwy na dwy ran o dair o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt ledled Cymru wedi'u dechrau'n fwriadol.

47 O fewn yr Awdurdod hwn, dechreuwyd 56 y cant o danau yn fwriadol yn 2004-05 o gymharu â 46 y cant yn ystod 2009-10. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol is na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan, sef 75 y cant yn 2004-05 a 67 y cant yn 2009-10.

48 Cyflawnir gwaith yr Awdurdod o ran tanau bwriadol a throseddau tân gan y Tîm Atal Tanau Bwriadol a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae nifer o fentrau sydd â'r nod o leihau tanau bwriadol, yn cynnwys:

- ymweld ag ysgolion a rhoi cyflwyniadau ar effaith cynnau tanau bwriadol fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1 i 3; a
- chysylltiadau â Thimau Troseddau Ieuenctid yn ardal yr Awdurdod i ganiatáu i bobl ifanc gael mynediad i amryw o gynlluniau ieuenctid megis Phoenix, sef rhaglen cynnwys ieuenctid sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc 13 i 17 oed sy'n wynebu'r risg o droseddu ac ymgysylltu â throseddwyr ac ymyrryd i'w hatal ail-droseddu (cynhaliwyd 19 o gyrsiau Phoenix yn ystod 2009-10 gan gynnwys 241 o bobl ifanc).

49 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd:

- nifer fach o farwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol dros y chwe blynedd diwethaf (sef pedair) ac mae wedi amrywio o ddim marwolaethau i ddwy farwolaeth yn 2009-10;
- mae nifer yr anafiadau a gafwyd yn ystod tanau bwriadol yn fach ac yn dangos lleihad sylweddol o 12 anaf yn 2004-05 i un anaf yn 2009-10; a
- bu gwelliant o ran nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt, sydd wedi lleihau 37 y cant o 2,454 yn 2004-05 i 1,536 yn 2009-10.

## Gwaith ieuentid

50 Ceir nifer o raglenni sydd wedi'u targedu at blant a phobl ifanc mewn perthynas ag atal tanau a diogelwch ar y ffordd. Mae'r rhaglenni'n cynnwys: gweithio gyda DangerPoint i ddarparu cyngor ar ddiogelwch i bobl ifanc, cyngor ar ddiogelwch i bob ysgol uwchradd drwy Crucial Crew, datblygu llyfrau gwaith a DVDs ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 i 4, addysgwyr yn ymweld ag ysgolion cynradd yng ngogledd Cymru yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2, a'r Cynllun Addysg Moduro ar gyfer gyrwyr ifanc sydd ag arferion gyrru anghymdeithasol neu beryglus.

51 Ceir wyth o grwpiau Diffoddwyr Tân Ifanc yn yr ardal.

52 Mae cynllun addysg ar waith ac mae'n cynnwys elfennau sy'n cysylltu â'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae rhaglenni penodol fel Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE) a Firesafe wedi'u hanelu at bobl ifanc sy'n dechrau tanau a chynhaliwyd 672 o ymweliadau ag ysgolion yn ystod 2009-10 gan gyrraedd tua 28,000 o blant.

53 Mae'r Awdurdod yn cynnal dau gwrs profiad gwaith bob blwyddyn lle mae disgyblion blwyddyn 10 o ysgolion uwchradd dethol yn treulio wythnos gyda'r Awdurdod - ym mis Mawrth 2010 dechreuodd tri pherson ifanc y cynllun lleoliad gwaith naw mis arbennig.

## Diogelwch ar y Ffyrdd

54 Er bod cyfanswm nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt ledled Cymru wedi lleihau 27 y cant, ers 2004-05, dros yr un cyfnod mae nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt wedi cynyddu chwech y cant.

55 Yn 2008 roedd 1,190 o farwolaethau a damweiniau difrifol ar y ffyrdd yng Nghymru, sef lleihad o naw y cant ers 2003 (1,302). Yn 2009 roedd 10,354 o achosion o bobl yn cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd yng Nghymru o gymharu â 13,687 yn 2004, sef lleihad o 24 y cant.

56 Nid oes gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol o ran diogelwch ar y ffyrdd, ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru.

57 Mae'r Awdurdod yn ymgymryd â nifer o fentrau a gynlluniwyd i leihau lefel y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, yn cynnwys:

- Cynllun Gyrru Pass Plus Cymru, sef cynllun wedi'i anelu at yrwyr ifanc 18 i 25 oed.
- Y fenter Beicio diogel -cynhaliwyd 25 o ddigwyddiadau Beicio diogel yn ystod 2010.
- Mae'r Cynllun Addysg Moduro yn fenter bartneriaeth sy'n cynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol - cynhaliwyd chwech o ddigwyddiadau yn ystod 2009-10.

58 Er bod nifer y tanau yr ymatebodd yr Awdurdod iddynt wedi lleihau 24 y cant ers 2004-05, mae nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt wedi cynyddu 35 y cant dros yr un cyfnod (sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru sef chwech y cant). Er mwyn achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'u diogelu rhag niwed difrifol mae penderfyniadau'r Awdurdod o ran ei ymateb i ddigwyddiadau yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n hysbys ar yr adeg y derbynnir yr alwad 999, yn hytrach nag aros i'r gwasanaethau argyfwng eraill ymateb i'r digwyddiad, asesu'r sefyllfa ac yna penderfynu galw'r gwasanaeth tân. Gall hyn olygu ei fod yn ymateb i fwy o ddigwyddiadau, ond mae'n ystyried y manteision o gyrraedd yn gynt yn hytrach nag aros, er mwyn helpu'r bobl sydd wedi'u hanafu ac yn methu dianc o'u cerbydau.

59 Er gwaethaf y mentrau a nodwyd uchod, bu cynnydd o 18 cant yn nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol ers 2003 ar y ffyrdd yng ngogledd Cymru. Roedd 305 o farwolaethau ac anafiadau difrifol yn 2003 o gymharu â 359 yn 2008, mae'r ddau ffigur yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ar gyfer y blynyddoedd hyn (451 a 397 yn y drefn honno) a bu cynnydd bob blwyddyn ers 2005.

60 Roedd 2,610 o achosion o bobl yn cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd yn ardal yr Awdurdod yn 2009 o gymharu â 3,203 yn 2004, sef lleihad o 19 y cant. Fodd bynnag, mae hyn yn is na lleihad cyfartalog Cymru o 24 y cant a nodwyd diogelwch ar y ffyrdd fel maes gwaith allweddol ar gyfer yr Awdurdod yn 2010-11.

# A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?

61 Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i fod yn barod i ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau o danau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i lifogydd, trychinebau naturiol eraill a gweithredoedd terfysgol. Yn 2009-10 ymatebodd i gyfanswm o 17,000 o alwadau argyfwng ac ymatebodd i tua 4,872 o danau a digwyddiadau a oedd yn galw am wasanaethau arbenigol. Roedd 75 y cant o'r digwyddiadau hyn yn danau, ac roedd y 30 y cant arall yn ddigwyddiadau nad oeddent yn ymwneud â thanau megis gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, llifogydd a galwadau tân diangen.

62 Er mwyn gwneud hyn mae angen gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n meddu ar yr adnoddau priodol i ymdrin yn ddiogel ag ystod eang o ddigwyddiadau.

63 Mae'r meysydd y mae'r Awdurdod yn canolbwyntio arnynt yn 2010-11 yn cynnwys llawer o agweddau ar y gwasanaeth sydd yn ffyrdd allweddol o ymbaratoi i allu ymateb i alwadau am gymorth. Mae manylion y camau gweithredu ar gael yng Nghynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol yr Awdurdod ar gyfer 2009-12 ar ei wefan, ond ceir crynodeb ohono fel a ganlyn:

- cysylltiadau TG a radio
- Hyfforddiant a galluedd arbenigol
- Offer newydd
- Cyfarpar diogelu personol
- Diffoddwyr tân - system ar ddyletswydd yn ôl galw
- Gwydnwch yr ystafell reoli
- Prosiectau cyfalaf

64 Mae'r Awdurdod yn gwneud y canlynol er mwyn gallu ymateb i geisiadau am gymorth:

- Yn cyflogi tua 883 o staff gweithredol ac 151 o staff cymorth ar hyn o bryd. Mae diogelwch yn flaenoriaeth allweddol, ac mae hyfforddi criwiau i ddefnyddio'r technegau a'r offer diweddaraf yn hanfodol er mwyn parhau i ymateb yn llwyddiannus i amryw o ddigwyddiadau.
- Mae gan yr Awdurdod 44 o orsafoedd tân. Mae'r rhain wedi'u trefnu'n saith 'uned reoli' ddaearyddol sydd ar y cyfan yn gydffiniol â'r chwe ardal cyngor cyfansoddol. O'r rhain:
  - mae tair yn llawn amser (gyda staff wedi'u lleoli yn yr orsaf 24 awr y dydd);
  - mae gan bump griwiau dydd (gyda staff wedi'u lleoli yn yr orsaf am ran o'r dydd a chyda staff ar ddyletswydd yn ôl galw ar adegau tawelach); ac
  - mae 36 yn gweithredu yn ôl y galw (gyda staff yn ymateb i ddigwyddiadau fel y bo angen ac maent ond wedi'u lleoli yn yr orsaf am nifer fach o oriau'r wythnos).
- Mae gan yr awdurdod 100 injan dân reng flaen a cherbydau arbenigol sy'n cael eu cynnal a'u cadw (yn cynnwys gwaith mawr ac atgyweiriadau mawr) yn ei weithdy ei hun neu defnyddir 'gweithdy' symudol ar gyfer archwiliadau mewn gorsafoedd a gwaith atgyweirio rheolaidd. Mae ganddo 17 o gerbydau wrth gefn a ddefnyddir pan fydd y cerbydau rheng flaen yn cael eu trwsio neu eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau gwasanaeth di-dor, ac mae ganddo dri cherbyd hyfforddi hefyd.

65 Mae Safon Gwasanaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Ymateb i Danau yn y Cartref (y Safon) wedi cael ei defnyddio ers 2006 i fesur pa mor dda y mae'r Awdurdod yn ymateb i danau mewn anheddau. Nod hyn oedd ymateb i danau mewn 80 y cant o anheddau Cymru o fewn 10 munud (pum munud lle ceid tystiolaeth fod bywydau mewn mwy o berygl), ynghyd â gwell gweithgarwch ataliol ar gyfer yr 20 y cant o anheddau nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn y Safon. Yn dilyn adolygiad o'r Safon yn ystod 2010, oherwydd pryderon ynghylch gwendidau posibl, datblygwyd dull amgen, sef 'Egwyddorion Arweiniol i Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Safonau Ymateb i Danau mewn Anheddau' sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

66 Ym mis Hydref 2008 daeth ystafell reoli bwrpasol a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth tân a Heddlu Gogledd Cymru yn weithredol. Mae hyn wedi gwella trefniadau i gydgysylltu ymatebion â galwadau argyfwng. Mae trefniadau hefyd ar waith gyda Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i roi gwybod i'r gwasanaeth tân yn gyflym pan fo gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, ac felly gellir gwneud penderfyniad ar lefel yr ymateb sydd ei hangen gan yr Awdurdod.

67 Ym mis Hydref 2010 gweithredwyd strwythur staffio newydd ar gyfer yr ystafell reoli sydd bellach yn darparu mwy o adnoddau a mwy o hyblygrwydd ar adegau prysur. Derbyniodd yr Awdurdod tua 22,000 o alwadau yn ystod 2009-10, ac roedd 17,000 o'r rhain yn ymwneud â digwyddiadau brys. Mae gan yr ystafell reoli amrywiaeth o gyfarpar TG a systemau newydd sy'n ei galluogi i weithredu 'proses neilltuo dynamig' sy'n golygu eu bod yn dewis yr injan dân agosaf i ymateb i ddigwyddiad. Daw prosiect cadernid rheoli Cymru gyfan (a elwir Firelink) yn weithredol yn ystod 2011-12. Bydd hyn yn darparu gwell trefniadau wrth gefn a chadernid rhwng tair ystafell rheoli'r gwasanaeth tân yng Nghymru. Mae cadernid ystafell reoli'r Awdurdod wedi gwella gan fod ganddo gyfleuster wrth gefn yn y Rhyl, ac mae ganddo drefniadau ar waith gyda'r ddau awdurdod arall yng Nghymru yn ogystal ag awdurdod yn Lloegr.

68 Mae'n hanfodol bod criwiau tân yn gallu cael cymaint o wybodaeth â phosibl am ddigwyddiad, ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Awdurdod wedi dechrau gosod systemau cyfrifiadurol soffistigedig yn ei 167 o gerbydau ym mis Hydref 2010. Mae'r systemau'n cynnwys dolen ddata ddiwifr er mwyn sicrhau y gall diffoddwyr tân gael gwybodaeth amser real a gedwir yn ganolog. Mae'r Terfynfeydd Data Symudol hyn yn cynnwys sgriniau cyffwrdd cadarn, sy'n caniatáu i ddiffoddwyr tân weld toreth o wybodaeth - yn cynnwys cynlluniau adeiladu a chynlluniau risg, manylebau dylunio llawer o geir, mapiau ffyrdd ac eiddo a'r risgiau sy'n gysylltiedig â mwy na 30,000 o sylweddau cemegol - yn uniongyrchol o gaban yr injan dân. Mae pob caban hefyd yn cynnwys ei beiriant argraffu ei hun i alluogi criwiau tân i wneud copïau caled o'r wybodaeth ar y ffordd i ddigwyddiad, neu yn ystod digwyddiad.

69 Adolygodd y broses asesu cymheiriaid drefniadau'r Awdurdod ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Lles ac ar gyfer hyfforddiant, datblygu ac asesu yn ystod hydref 2009. Mae'r canfyddiadau pellach i'w gweld yn Atodiad 6. Daeth y Tîm Asesu Cymheiriaid i'r casgliad:

- Iechyd, Diogelwch a Lles - gwnaed cynnydd da i sefydlu diwylliant Iechyd a Diogelwch ar draws y sefydliad a byddai cyflwyno cyfres o ddangosyddion lleol yn cefnogi'r Gwasanaeth i sicrhau gwelliant drwy nodi tueddiadau ac amlygu meysydd sydd angen sylw.
- Hyfforddiant, Datblygu ac Asesu - mae gan y Gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau i ddarparu hyfforddiant a datblygu sy'n

adlewyrchu'r Canllawiau Cenedlaethol, fodd bynnag, dylai'r gwasanaeth barhau i adolygu ei bolisïau i sicrhau ei fod yn amlygu gweithgarwch cyfredol ac yn nodi'n glir lle y gwneir diwygiadau allweddol.

70 Ym mis Rhagfyr 2009 archwiliwyd yr Awdurdod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) fel rhan o raglen archwilio ehangach ledled y DU. Gwnaeth yr HSE bedwar o argymhellion a oedd yn ymwneud â:

- strwythurau a threfniadau rheoli ar gyfer cyflawni polisïau;
- sicrhau cyfranogiad yr ymddiriedolaeth a chynnwys pob cyflogai;
- trefniadau i sicrhau cymhwysedd staff;
- mesur perfformiad yn erbyn safonau cytûn.

71 Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion yr HSE a'r Tîm Asesu Cymheiriaid, yn enwedig mewn perthynas ag adolygu a diwygio ei bolisïau a chamau i fynd i'r afael â materion megis trefniadau rheoli iechyd a diogelwch. Cyflwynir rhaglen hyfforddiant gydweithredol ledled Cymru o fis Ionawr 2011.

72 Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff a'u datblygu gan ei fod yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu sydd â lefel uchel o sgiliau a chymhelliant. Treuliwyd tua 7,000 o ddiwrnodau/sifftiau ar hyfforddiant a datblygu yn 2009-10.

73 Mae gan yr Awdurdod broses gynhwysfawr ar gyfer dysgu gweithredol gan gynnwys anfon swyddogion annibynnol i ddigwyddiadau penodol. Mae’r swyddogion yn arsylwi ar y digwyddiadau ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i hysbysu hyfforddiant a gwella iechyd a diogelwch.

74 Prynwyd cyfarpar diogelu personol newydd ar gyfer diffoddwyr tân ar sail Cymru gyfan yn ddiweddar gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad.

75 Caiff staff eu hyfforddi i ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol yn ogystal â digwyddiadau lleol. Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ar 11 Medi 2001 yn yr Unol Daleithiau, gweithredodd llywodraeth y Deyrnas Unedig raglen i sicrhau y byddai gan Wasanaethau Tân ac Achub y DU y gallu i ymdopi â digwyddiadau o'r maint hynny pe baent yn digwydd yma. Mae 'Rhaglen y Dimensiwn Newydd' wedi gwella'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau sy'n amharu llawer, yn cynnwys terfysgaeth, drwy ddarparu cerbydau a chyfarpar arbenigol ledled Cymru (yn cynnwys Pympiau Cyfaint Uchel, Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau a chyfarpar Dadheintio). Mae cerbydau a chyfarpar gwerth tua £1.1 miliwn wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru.

76 Er mwyn gallu ymateb i alwadau lleol a chenedlaethol mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres o gynlluniau wrth gefn sy'n ei helpu i ymdopi pan fo lefel uchel o alw am ei wasanaethau. Mae'n rhannu'r cynlluniau hyn gyda phartneriaid, megis yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, gwylwyr y glannau a thimau achub ar fynydd, ac mae wedi cynnal cyfres o ymarferion ar y cyd i brofi'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.

77 Mae nifer y galwadau maleisus a dderbyniwyd gan yr Awdurdod wedi lleihau ers 2004-05 pan dderbyniodd 930 o gymharu â 563 yn 2009-10. Yn ogystal â'r lleihad yn nifer y galwadau maleisus a dderbyniwyd, mae canran y galwadau maleisus yr ymatebwyd iddynt wedi lleihau hefyd dros yr un cyfnod (29 y cant o gymharu â 25 y cant), a hynny’n bennaf am fod gweithredwyr rheoli yn herio galwadau amheus, a bod camau'n cael eu cymryd yn erbyn pobl sy'n gwneud ffug-alwadau maleisus.

78 Yn ystod 2009-10 collwyd tua 4,000 o ddiwrnodau/sifftiau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch, sef cynnydd o bron 270 diwrnod o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (saith y cant) ac mae'n cyfateb i bron naw diwrnod fesul pob unigolyn. Staff rheoli oedd â'r gyfradd uchaf o absenoldeb oherwydd salwch gyda chyfartaledd o 15 diwrnod fesul unigolyn, o gymharu â staff gweithredol (ag eithrio staff ar ddyletswydd yn ôl galw) sydd â chyfartaledd o wyth diwrnod a staff anweithredol sydd â chyfartaledd o 10 diwrnod.

79 Yn ystod 2009-10 cafodd 35 o'r personél eu hanafu 'ar ddyletswydd' sy'n cymharu'n wael â'r flwyddyn flaenorol pan anafwyd 11 yn unig. O ganlyniad i'r anafiadau hyn collwyd 687 o ddiwrnodau gyda'r mwyafrif, tua 80 y cant, wedi'u priodoli i staff yn ôl galw.

# Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud?

80 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

81 Rydym o'r farn bod angen i'r Awdurdod ystyried ein cynigion i'w helpu i wella.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

Dylai'r Awdurdod ystyried y canlynol:

- mynd i'r afael â'r ffaith bod y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen;
- sicrhau bod yr ystod gyfredol o feddalwedd cyflwyno adroddiadau yn hwyluso proses gwneud penderfyniadau gadarn yn y tymor canolig i'r hirdymor;
- adolygu pa brosesau busnes a fydd yn cefnogi orau'r gwaith o ddarparu prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus; a
- ffurfio cynllun tymor canolig i sicrhau cytundeb ar gyfeiriad polisi cyffredinol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w gyflawni.

**Cynigion newydd**

Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig ymhellach er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned; a
- pharhau i flaenoriaethu gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o’r ffordd y gall gyfrannu at wneud y ffyrdd yn ei ardal yn fwy diogel.

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[3]

3 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol. Ceir dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag awdurdodau tân.

**Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ddarparu gwasanaeth diffodd tân, sydd hefyd yn golygu diogelu bywyd ac eiddo os oes tân yn digwydd. Mae'r ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

**Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn Diogelwch Tân)**

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y rhannau cyffredin o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r sawl sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân ac mae'n sicrhau y parheir i adolygu risgiau. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[4] gynnal asesiad risgiau tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith i leihau'r risg i fywydau o ganlyniad i danau; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan awdurdodau tân ac achub, a disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol sy'n seiliedig ar risg.

**Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl**

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all gyflawni heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y llywodraeth pe bai argyfwng difrifol.

O dan y Ddeddf caiff Gwasanaethau Tân ac Achub eu diffinio fel Ymatebwyr Categori 1 ac felly mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu; a
- chydweithio ag ymatebwyr lleol eraill i wella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

4 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwyr neu'n weithiwr hunangyflogedig â safle busnes, yn gyfrifol am ran o annedd a gaiff ei defnyddio at ddibenion busnes yn unig, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractiwr sy'n gyfrifol mewn rhyw ffordd am unrhyw safle, yn darparu llety i bobl sy'n talu.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol, sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo â’r rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn llunio Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Ariennir yr Awdurdod yn uniongyrchol gan ei awdurdodau lleol cyfansoddol ar sail yr etholaeth gofrestredig ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng ngogledd Cymru:

- Cyngor Sir Ynys Môn (tri aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (pum aelod)
- Cyngor Sir Ddinbych (pedwar aelod)
- Cyngor Sir y Fflint (chwe aelod)
- Cyngor Gwynedd (pum aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (pum aelod)

Pennir nifer y cynrychiolwyr yn ôl nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal.

Y Cadeirydd presennol yw’r Cynghorydd S Frobisher.

Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod llawn bedair gwaith bob blwyddyn fel arfer - ym mis Mawrth, Mehefin, Hydref a Rhagfyr - i ystyried pynciau megis cynlluniau gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, ac i wneud penderfyniadau busnes neu gymeradwyo penderfyniadau o'r fath fel y bo'n briodol. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion trafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan S A Smith, y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr gyda chymorth tîm y prif swyddogion, yr uwch dîm rheoli a chynghorwyr arbenigol.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr Awdurdod yn www.nwales-fireservice.org.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwedd, Llanelwedd, Sir Ddinbych, LL17 0JJ.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Awst 2010.

Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol.

**Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cefnogi gwelliant wedi atgyfnerthu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol:

- yn y gorffennol mae trefniadau'r Awdurdod i gefnogi gwelliant wedi cael eu rhwystro gan wybodaeth reoli annigonol;
- mae gan yr Awdurdod ddull pwyllog a chynhwysol o gynllunio ei weithgareddau er mwyn lleihau nifer yr achosion o farwolaethau oherwydd tân a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i gefnogi gwelliant;
- mae'r cynnydd yn galonogol ac mae tystiolaeth bod yr Awdurdod yn dod yn fwy rhagweithiol ac arloesol yn ei ddull o gefnogi gwelliant.

**Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella**

Ar y cyfan mae trefniadau'r Awdurdod yn gadarn ac yn dangos cryfderau penodol o ran gweithio mewn partneriaeth ond maent yn wannach mewn prosesau busnes:

- mae gan yr Awdurdod drefniadau gweithio mewn partneriaeth ddatblygedig, yn arbennig gyda'r heddlu, a atgyfnerthir ymhellach pan gaiff prosesau gwerthuso eu datblygu;
- mae gan yr Awdurdod drefniadau da a ddylai gefnogi gwelliant mewn perthynas ag arwain a llywodraethu, polisi a strategaeth, adnoddau a rheoli pobl;
- nodwyd gwendidau mewn rheoli perfformiad a chymerwyd camau i wella cadernid y systemau gwybodaeth reoli, ond mae angen datblygu prosesau busnes ymhellach.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru

**Cydymffurfiodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y meysydd canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr;
- gwnaed cynnydd da hyd yma i baratoi ar gyfer gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11 a dylai'r Awdurdod anelu at gynhyrchu cyfres ddrafft o gyfrifon Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn cynnwys cymaryddion cyn gynted â phosibl;
- paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau rheolaeth gyllidebol effeithiol ar waith ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig yn datblygu, ond mae'r Awdurdod yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn bodloni'r holl ofynion statudol heblaw am y ffaith, er i'r Cynllun gwella gael ei gwblhau erbyn 31 Hydref 2010, na chafodd ei gyhoeddi tan 1 Tachwedd 2010 ac mae'n darparu darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2010.

Roedd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Virginia Stevens
KPMG LLP

# Atodiad 5

## Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod. Ceir crynodeb o'r amcanion isod:

**Amcan Un: Helpu i ddiogelu pobl a chymunedau drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn lletyau preswyl.**

Mae diogelwch tân cymunedol yn flaenoriaeth proffil uchel ar gyfer yr Awdurdod. Er mai nifer wirioneddol fach o farwolaethau ac anafiadau sydd o ganlyniad i danau mewn anheddau yn yr ardal, mae effaith pob achos o'r fath yn fawr iawn. Gwnaed cynnydd da dros y degawd diwethaf i leihau nifer yr achosion o danau damweiniol mewn anheddau, ond mae'n fwy anodd sicrhau lleihad tebyg yng nghyfradd y marwolaethau ac anafiadau.

**Canlyniad disgwyliedig**

Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel yn eu cartrefi. Gyda'r cymorth a'r cyngor priodol, gall pobl amddiffyn eu hunain rhag tanau damweiniol, drwy atal tanau yn y lle cyntaf, a thrwy wybod sut i ymateb yn gyflym ac yn briodol os oes tân. Os bydd hynny wedi methu, dylai pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'w hachub a lleihau'r difrod i'w heiddo.

Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau.

**Amcan 2: Helpu i leihau'r risg o danau damweiniol mewn eiddo annomestig, fel y gall gweithgareddau arferol barhau a sicrhau nad yw bywydau ymwelwyr a gweithwyr mewn perygl.**

Trosglwyddodd Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Diogelwch Tân) 2005 y cyfrifoldeb am ddiogelwch tân mewn adeiladau perthnasol i reolwyr y safleoedd hynny a newidiodd rôl yr Awdurdod i rôl Gorfodi.

**Canlyniad disgwyliedig**

Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel ar unrhyw safle annomestig megis adeiladau cyhoeddus, gweithleoedd, gwestai, siopau a lleoliadau chwaraeon. Mae hefyd angen i gymunedau deimlo'n hyderus na fydd tân yn difrodi eu hysgolion, ysbytai, busnesau na'u cyfleusterau diwylliannol neu hamdden lleol, nac yn achosi i sylweddau peryglus gael eu rhyddhau i'r atmosffer.

**Amcan 3: Helpu i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn ymwneud â thân, megis llifogydd, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a digwyddiadau cemegol.**

Mae'r Awdurdod yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â thân gyda lefel uchel o arbenigedd technegol a chyfarpar arbenigol. Mae llifogydd a digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â'r tywydd yn gyffredin iawn yn enwedig yn ystod y gaeaf, ac mae gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn fwy cyffredin na thanau drwy gydol y flwyddyn.

**Canlyniad disgwyliedig**

Amgylchedd mwy diogel, lle caiff graddau'r difrod strwythurol a'r achosion o niwed i bobl eu lleihau gan wasanaeth achub sy'n meddu ar lefel uchel o sgiliau a chyfarpar.

**Amcan 4: Helpu i fynd i'r afael â'r broblem o gynnau tanau yn fwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd na threftadaeth yr ardal mewn perygl.**

Mae pobl yn cynnau tanau yn fwriadol am amryw resymau. Mae cynnydd mewn achosion o gynnau tanau yn fwriadol wedi cael ei gysylltu ag adegau o ddirwasgiad economaidd, a gall lleihad mewn cyllidebau sector cyhoeddus hefyd olygu llai o arian yn cael ei wario ar fesurau diogelwch penodol megis gosod camerâu teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd lle ceir trafferthion. Mae'r gost o atgyweirio'r difrod a achoswyd gan danau bwriadol mewn adeiladau cyhoeddus (e.e. ysgolion) a mannau cyhoeddus (e.e. parciau) yn gosod hyd yn oed mwy o straen ar gyllidebau.

**Canlyniad disgwyliedig**

Dim cynnydd mewn tanau bwriadol.

**Amcan 5: Canolbwyntio ar wella trefniadau datblygu cynaliadwy'r Awdurdod drwy daro'r cydbwysedd priodol rhwng effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub.**

Mae'r Awdurdod eisoes wedi cwblhau cryn dipyn o waith amgylcheddol ac arbed ynni, yn bennaf o ran lleihau ei ôl troed carbon drwy reoli ei adeiladau a'i gerbydau a'i ddefnydd o danwydd, ynni a dŵr. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w gyflawni, yn cynnwys cyflwyno cynllun datblygu cynaliadwy.

**Canlyniad disgwyliedig**

Sicrhau gogledd Cymru well, diogelach a gwyrddach drwy reoli datblygu cynaliadwy yn barhaus.

**Amcan 6: Dod yn well o ran nodi ac ymgysylltu â phobl a allai fod dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella'u hymdeimlad o les a lleihau'r risg i'w diogelwch personol.**

Mae'r Awdurdod yn treulio cryn dipyn o amser ac egni yn ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol ac yn ceisio ymestyn allan i bobl sy'n wynebu fwy o risg oherwydd amgylchiadau personol neu gyflwr eu hiechyd. Ymhlith yr enghreifftiau mae

- cyflogi Cydgysylltydd Trydydd Sector i helpu i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth gyda chynrychiolwyr amryw o grwpiau lleiafrifol;
- cyflawni profion diogelwch tân yn y cartref wedi'u teilwra at anghenion penodol (e.e. ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn bregus eu hiechyd);
- cynnal cyrsiau sy'n para am wythnos ar gyfer carcharorion o Garchar Altcourse, Glannau Merswy;
- cynnal ystod eang o raglenni ieuenctid a rhaglenni mewn ysgolion; a
- gweithio gyda gyrwyr ifanc i helpu i hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd.

**Canlyniad disgwyliedig**

Targedu cyngor ataliol yn well, ar sail dealltwriaeth gadarn o gymunedau penodol.

**Amcan 7: Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a diogel â phosibl.**

Mae'r cyngor yn disgwyl i'r Awdurdod fod ar gael drwy'r amser, ac mae ganddo bolisi rheoli parhad busnes cynhwysfawr ar waith i sicrhau hynny. Mae staff yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt ond mae angen gwella trefniadau i brofi a diweddaru cynlluniau parhad busnes.

**Canlyniad disgwyliedig**

Mwy o sicrwydd na fydd digwyddiad annisgwyl yn amharu ar unrhyw agwedd ar weithredoedd y gwasanaeth tân ac achub a'r trefniadau sy'n ategu'r gweithrediadau hynny.

# Atodiad 6

## Crynodeb o ganfyddiadau Tîm yr Asesiad Cymheiriaid
## Adolygiad o Iechyd a Diogelwch a Hyfforddiant a Datblygiad (hydref 2009)

Yn ystod yr asesiad o'r Awdurdod cyn ymweld â'r safle a'r asesiad ar y safle, nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid y materion allweddol canlynol mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch a Hyfforddi a Datblygu.

**Iechyd a Diogelwch**

Gwnaed cynnydd da i sefydlu diwylliant Iechyd a Diogelwch ar draws y sefydliad. Roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r personél yn deall eu cyfrifoldebau a'r dulliau adrodd i leihau ymhellach nifer y damweiniau/achosion o ddamweiniau y bu bron iddynt ddigwydd. Ceir hefyd broses a ddiffiniwyd yn glir o ymchwilio i ddamweiniau sy'n diwygio ac yn llywio polisïau a gweithdrefnau. Gwnaed cynnydd o ran gweithredu a choladu Gwybodaeth Weithredol gan ddefnyddio Cardiau Gwybodaeth am Beryglon gyda system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau cysondeb. Cyflwynwyd gweithdrefnau monitro gweithredol ac mae'r gwasanaeth yn dysgu o sesiynau dadfriffio a phrofiad o ddigwyddiadau'r gorffennol i wella Iechyd a Diogelwch ar draws y gwasanaeth.

Bydd cyhoeddi'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch a chyflwyno polisïau cyfredol sy'n hawdd i'w defnyddio, ac sy'n amlygu unrhyw newidiadau ers y fersiwn flaenorol, yn cefnogi'r Gwasanaeth i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran Iechyd, Diogelwch a Lles. Bydd ymgynghori ehangach ar draws y sefydliad hefyd yn helpu i gefnogi'r strwythurau a'r trefniadau rheoli presennol ymhellach. Byddai cyflwyno cyfres o ddangosyddion lleol yn cefnogi'r Gwasanaeth i hyrwyddo gwelliant drwy nodi tueddiadau ac amlygu meysydd sydd angen sylw.

**Hyfforddi a Datblygu**

Mae gan y Gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau i ddarparu hyfforddiant a datblygiad sy'n adlewyrchu'r Canllawiau Cenedlaethol, fodd bynnag dylai'r gwasanaeth barhau i adolygu ei bolisïau i sicrhau ei bod yn amlygu gweithgarwch cyfredol ac yn nodi'n glir lle y gwneir diwygiadau critigol o ran risgiau. Mae'r Gwasanaeth wedi ceisio gweithredu a chynnal strwythur priodol i gynllunio, datblygu a chyflawni ei ofynion o ran Hyfforddi a Datblygu. Cefnogir hyn ymhellach gan Swyddogion Datblygu a Hwyluso Hyfforddiant a Hyfforddwyr Cynorthwyol i hwyluso hyfforddiant mewn gorsafoedd ac yng Nghanolfan Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth (SLDC). Er mwyn hyrwyddo'r gwelliant hwn ymhellach dylai Canolfan Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth ddarparu rhagor o wybodaeth i bob defnyddiwr terfynol gweithredol am rôl a gwaith Swyddogion Datblygu a Hwyluso Hyfforddiant a Hyfforddwyr Cynorthwyol. Cynhelir Cofnodion Datblygu Personol Archwiliedig i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd. Mae angen gwella'r gallu i gael gafael ar hyfforddwyr arbenigol ac ystyried darparu deunydd hyfforddi i gefnogi'r broses Cofnodion Datblygu Personol.

## Adolygiad o Weithgarwch Rheoli Risgiau Cymunedol a Diogelwch Cymunedol (Hydref 2010)

**Rheoli Risgiau Cymunedol**

'A yw'r  Awdurdod Tân ac Achub yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau a wynebir gan y gymuned?' Roedd y Tîm Asesu Cymheiriad yn gallu cadarnhau bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau a wynebir gan y gymuned.

- Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid ddull amgen arloesol yr Awdurdod Tân ac Achub o asesu, deall a thargedu risgiau o fewn ei ardal gwasanaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd tanau mewn anheddau. Roedd y Tîm Asesu Cymheiriaid yn falch o nodi bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cydnabod yr angen i ddatblygu gwell dealltwriaeth o amrywiaeth y bobl a oedd yn byw o fewn yr ardal gwasanaeth ac roedd wedi cynnwys hyn yng Nghynllun Lleihau Risg 2011-12.
- Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi pennu mai Profion Diogelwch Tân yn y Cartref, a dargedwyd i leihau marwolaethau oherwydd tanau, yw ei brif flaenoriaeth. Mae hyn yn seiliedig ar, ac wedi'i lywio gan ffactorau cyfrannol hysbys a ddangoswyd gan unigolion a oedd yn gysylltiedig â marwolaethau mewn tanau, fel y nodwyd o fewn adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddogion Tân 2007 (adolygwyd yn 2009).
- Roedd tystiolaeth o ymgysylltu anffurfiol helaeth â phartneriaid wrth ddatblygu'r Cynllun Lleihau Risg. Roedd hyn o ganlyniad i adborth ac ymgysylltu cyffredinol drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na bod yn benodol i'r broses o baratoi'r Cynllun Lleihau Risg.
- Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cydnabod y gellid datblygu ymhellach ei brosesau adolygu a dysgu sy'n seiliedig ar werthuso, ac mae'n ystyried dull sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau.

**Diogelwch Cymunedol**

'A oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub drefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni Diogelwch Cymunedol yn unol â'r risgiau a'r blaenoriaethau a nodwyd?' Roedd y Tîm Asesu Cymheiriaid yn gallu cadarnhau bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub drefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni Diogelwch Cymunedol yn unol â'r risgiau a'r blaenoriaethau a nodwyd.

- O fewn amcanion gwella'r Cynllun Lleihau Risg, mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi nodi manylion cysylltiadau clir â'r amcanion o fewn y strategaeth Diogelwch Cymunedol.
- Roedd tystiolaeth glir i ddangos y diwylliant o gydweithredu a sefydlwyd o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub, a chydnabyddir bod hyn yn allweddol i gynnydd llwyddiannus gweithgarwch Diogelwch Cymunedol.
- Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub dull rhagweithiol a blaengar o ran gweithio mewn partneriaeth gyda rhai mentrau y gellid eu nodi fel arfer gorau.
- Mae'r Tîm Asesu Cymheiriaid yn nodi'r gwaith sylweddol a wnaed i gyflawni dros 32,000 o Brofion Diogelwch Tân yn y Cartref gyda 25 y cant o bob un o'r Profion wedi'u targedu at ardaloedd risg uchel. Roedd yn amlwg fod dull sefydledig o ran risg a Phrofion Diogelwch Tân yn y Cartref.

- Roedd rhai enghreifftiau o fesur a gwerthuso gweithgarwch Diogelwch Cymunedol. Fodd bynnag ymddengys fod hyn yn anghyson ar draws y Sefydliad. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd hyrwyddo gwelliant a rhannu arfer da.
- Nododd y Tîm Asesu Cymheiriaid risg bosibl i'r Awdurdod Tân ac Achub lle nad oedd statws na threfniadau monitro cynnydd o ran cyflawni atgyfeiriadau risg uchel mor gadarn ag y gallent fod o fewn y System Rheoli Cofnodion.

# Atodiad 7

## Cyfeiriadau

Cymerwyd yr holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau'r Awdurdod ei hun, adroddiadau a chynlluniau gwella'r Awdurdod
- Sicrwydd Gweithredol Adroddiadau Asesu Cymheiriaid Cyflawni Gwasanaethau 2009-10 a 2010-11
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Arolwg Iechyd Cymru 2008-09